# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod y Cyngor, Nos Fawrth 08/02/2022 ar Zoom am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhys Tudur (Cad) | Catrin Roberts | Gruffydd Williams | Lleucu Jones | Cai Rees Jones |
| Mared Llywelyn Williams | Arfon Hughes | Alaw Llewelyn Roberts | Carys Roberts | Rhys Llewelyn |
| Caren Jones | Janice Evans | Pat Humphreys (Clerc) | | |

Cafwyd cais gan y clerc i recordio'r cyfarfodydd o hyn ymlaen. Mae hi'n dioddef o 'athritis' ac mae hi'n cael dipyn o drafferth hefo'i dwylo ar hyn o bryd ac yn cael 'flare ups' yn rheolaidd ac mewn poen. Teimlo mae hi y byddai recordio y cyfarfodydd yn help iddi os fysa hi'n methu dal i fyny hefo ysgrifennu y cofnodion ac yn methu ambell i air yma ac acw, ar laptop y Cyngor Tref fydd y recordiau ac ella na fydd angen iddi wrando arnynt ond eu bod yna wrth gefn petai angen. Pasiwyd i recordio'r cyfarfodydd o hyn allan.

1. **Ymddiheuriadau.**
   Gito Williams.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Dim.

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Zoom 11/01/2021
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Cai Rees Jones Eilio: Catrin Roberts

4. **Unrhyw Fater Brys**
   **Cylch Meithrin Nefyn –** gais am gyfraniad ariannol
   Derbyniwyd ebost gan Cylch Meithrin Nefyn yn dweud eu bod wedi cael achos o fandaliaeth unwaith eto yn yr ardal chwarae y tu allan ac yn gofyn am gyfraniad ariannol i brynnu camera CCTV. Derbyniodd y clerc gopi o'r datganiad banc diweddaraf ac fe anfonodd ymlaen i'r aelodau.
   Penderfyniad: cefnogi'r cais ond y clerc i ofyn iddynt am amcanbris o gost y camera yn gyntaf a'i anfon i'r aelodau drwy ebost er mwyn i bawb gytuno ar y swm i'w gyfrannu.
   Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Mared Llywelyn Williams

5. **Mynwent Morfa Nefyn –** estyniad i'r fynwent – diweddariad – Clerc
   Derbyniwyd ebost gan Lowri Cadwaladr Roberts yn ymateb i ebost CTN yn gofyn i Cyngor Gwynedd weithredu ar eu rhan mewn Gorchymyn Prynu Gorfodol. Maent angen ymateb i amryw o bwyntiau ac yn gofyn am ddipyn o wybodaeth gan CTN cyn symud ymlaen gyda'r cais felly er mwyn darparu'r wybodaeth yma fe fydd angen trefnu cyfarfod o Is-bwyllgor Mynwentydd ar y safle. Bydd angen cofio hefyd ei bod yn bwysig cael llwybr saff i'r ysgol yn sgil prynu'r tir yma gan fod y llwybr ar y funud yn mynd ar hyd ben y clawdd sydd yn beryglus iawn i rhieni sydd hefo plant bach.
   Penderfyniad: y clerc i drefnu cyfarfod o'r Is-bwyllgor Mynwentydd ac i unrhyw un arall sydd yn dymuno bod yn bresennol a gwahodd y ddau aelod lleol hefyd.
   Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Rhys Llewelyn

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur – 07825 129737

Cafwyd cais gan un o'r aelodau am wybodaeth ynglŷn â trwsio'r giat a'r postyn yn mynwent Morfa Nefyn. Maent wedi cael eu malu ers Haf 2021 ac mae'r clerc wedi cysylltu gyda'r person cyfrifol i ofyn beth sydd yn digwydd ac wedi cael ateb y bydd yn cael ei thrwsio cyn gynted a phosibl.
Penderfyniad: y clerc i gysylltu gyda'r person cyfrifol i ofyn am ddyddiad pan fydd y giat yn ôl yn ei lle a'r postyn wedi cael ei drwsio.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Arfon Hughes

6. **Gardd y Llyfrgell – Amcanbrisiau asesiad ar y goeden –** Clerc
Derbyniwyd dau amcanbris am asesiad ar y goeden wrth y llyfrgell ac mae'r clerc wedi anfon y ddau i'r aelodau iddynt gael golwg arnynt.
Penderfyniad: mynd hefo'r pris isaf yn ddibynnol fod ganddo ddogfennau yswiriant atebolrwydd cyhoeddus priodol.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Mared Llywelyn Williams

7. **Creu Rhestr Asedau CTN ar gyfer yr archwiliad –** Clerc
Un o'r pwyntiau sydd wastad yn cael ei godi yn yr archwiliad yw creu rhestr asedau ar gyfer CTN. Yn y gorffennol mae'r clerc yn gwneud y rhestr asedau o'r ddogfen yswiriant ond nid yw honno yn rhestru yr eitemau i gyd dim ond cyfanswm o bob categori ac nid yw hyn yn dderbyniol gan yr arcwhiliwyr. Mae'r clerc wedi cael templed ac felly angen cael cyfarfod hefo cynrychiolaeth o bob pentref i gychwyn creu y rhestr fel bod yr eitemau i gyd yn cael eu rhestru ar wahan.
Penderfyniad: pasiwyd i gael cyfarfod o aelodau yr Is-bwyllgor Ariannol a'r aelod lleol ac un aelod o Edern gan nad oes cynrychiolaeth o Edern ar yr Is-bwyllgor Ariannol ar nos Fawrth 22ain o Chwefror 2022 am 7yh.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Caren Jones

8. **Cais gan Felin Fach Pwllheli i ddefnyddio Siop Siarad –** diweddariad - Gruffydd Williams
Cafwyd diweddariad gan yr aelod lleol. Mae'r gwelliannau wedi cychwyn i addasu Siop Siarad ar gyfer Felin Fach yn dilyn derbyn y grant ac mae grant arall ar gael i roi ffenestri a drws newydd yno ac mae'r aelod lleol wedi siarad hefo'r perchennog sy'n hapus i CTN gario mlaen gyda hyn. Mae Felin Fach am dalu swm i CTN yn wythnosol er mwyn cael defnyddio Siop Siarad am 2 neu 3 diwrnod yr wythnos. Cafwyd cais gan un o'r aelodau i wneud yn saff y bydd y ffenestri a'r drws newydd yn gweddu i hanes yr adeilad a diogelu cymeriad yr adeilad. I alluogi Felin Fach i roi cais grant i fewn i newid y ffenestri a'r drws mae'n rhaid i CTN is-osod (sub-let) rhan o'r adeilad i Felin Fach ac mae'r perchennog yn hapus hefo hyn hefyd ac yn barod i arwyddo cytundeb 5 mlynedd gyda CTN ar yr adeilad. Fe fydd angen ail edrych ar y les sydd rhwng y perchennog a CTN a cafwyd awgrym gan un o'r aelodau i gael cyfreithiwr i edrych ar y les newydd pan fydd un wedi ei ddrafftio.

9. **Gohebiaeth a Dderbyniwyd**
   - **Cronfa Cymunedau Mentrus –** ebost Alys Lloyd Jones

   Derbyniwyd ebost gan y swyddog cefnogi cymunedau ynglŷn â cronfa cymunedau mentrus. Mae'r gronfa yma wedi cael ei sefydlu gan Cyngor Gwynedd ac wedi derbyn arian ar gyfer adfywio cymunedau i gefnogi a chynyddu ardaloedd i liwio eu dyfodol drwy hyfforddiant a chymorth ymarferol. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth ynglŷn â pa fath o brosiectau y maent yn eu cefnogi a pa fath o grwpiau sydd yn gallu ymgeisio am y grant. Cafwyd cais gan un o'r aelodau i'r clerc gysylltu gyda'r swyddog i weld os yw y prosiect Byrddau Gwybodaeth sydd gan CTN ar y gweill ar y funud

yn bodloni meini prawf y grant ac hefyd i'r aelod lleol gysylltu hefo'r swyddog i gael syniadau o beth arall sydd yn bosibl. Os oes gan yr aelodau syniadau ynglŷn â hyn yna iddynt gysylltu gyda'r aelod lleol neu'r clerc gyda'r syniadau.

**10. Ceisiadau Cynllunio**

Dim.

**11. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1035.69
- Rhys Tudur – Trydydd taliad y cadeirydd - £300.00
- Snowdonia Fire & Security – Ffi galwad allan - £60.00
- Tyddyn Sachau – blodau ers mis Medi 2021 - £58.89
- D. M. Parry – Chweched taliad mynwent Nefyn a Morfa Nefyn - £1020.00
- Mrs P E Humphreys – ad-daliad torri 4 goriad newydd i Siop Siarad - £18.00
- Cliff Hughes – Taliad 9 cytuneb llwybrau - £1075.00 + Gwaith Ychwanegol - £219.00 = £1294.00
- Npower – Trydan Llyfrgell mis Ionawr - £198.34
- Ashley Hughes – Offer swyddfa - £74.38
- E.On Next – Trydan Siop Siarad mis Ionawr - £131.72
- Bleddyn Evans – Gosod a thynnu goleuadau dolig y ddwy goeden - £250.00
- Tyddyn Sachau – Blodau Morfa - £84.98
- Dewi Thomas – Prosiect Angor Gadarn - £550.00

Penderfyniad: Talu pob anfoneb ac hefyd talu anfonebau Chris Brady a Gareth Williams ar gyfer cais grant prosiect yr angor gadarn pan dderbynnir anfoneb a'r clerc i anfon copi o'r anfonebau i'r aelodau drwy ebost.

Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gruffydd Williams

**12. Taliadau wedi eu derbyn**

- G D Roberts – angladd Elizabeth Clark, Ifor Hughes Griffiths a Rhian Deane - £2260.00
- G W Parry – angladd Annie Griffiths Jones - £350.00
- Mrs Megan Roberts – meddiant lle bedd i gael gosod carreg fedd - £350.00